

Enw'r corff: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cwynion

- Mae'r Comisiynydd wedi mynd ati i gyhoeddi a hyrwyddo ar y teledu ac yn y cyfryngau, os yw siaradwyr Cymraeg yn anhapus gyda darpariaeth gwasanaeth y gallant gwyno'n uniongyrchol i'r Comisiynydd. Mae hyn yn tueddu i danseilio gweithdrefnau / polisiau cwynion mewnol cyfredol a byddem yn croesawu newid yn ffram amser y drefn hon fel ein bod yn cael y cyfle i geisio datrys cwyn o fewn amserlen yn gymharol gyflym, yn lle cael ein cymryd drwy broses ymchwilio allanol ffurfiol. Byddai'n haws i feithrin neges gadarnhaol am yr iaith ar draws y sefydliad os oedd y broses fewnol yn ein galluogi i ddatrys materion ar y cyfle cyntaf. Gall llawer o faterion fel camgymeriadau sillafu syml gael eu cywiro yn gyflym iawn.

Hyrwyddo

- Mae Mesur y Gymraeg yn sôn am Godau Ymarfer posibl. Byddai'n fuddiol dros ben i gael y lefel hon o gyngor gan fod dehongli'r safonau wedi bod ar lefel swyddog gan adael lle ar gyfer gwahaniaethau mewn dehongliadau o fewn ac ar draws sefydliadau tebyg.

Dehongli Safonau

- Mae cydweithwyr mewn sefydliadau eraill gydag enghreifftiau o negeseuon e-byst oddi wrth wahanol Swyddogion y Comisiynydd yn dehongli'r un Safon yn wahanol - mae'r neges a'r dehongliad o'r Safonau yn anghyson ac yn achosi peth dryswch ac felly anhawster i'w weithredu.

Ymchwiliadau

- Mae'r broses yn fiwrocraidaidd iawn ac mewn rhai achosion rydym wedi gallu datrys y mater yn gyflym iawn, ond yn parhau i fod yn rhan o broses ymchwiliad am yr hyn sydd wedi dod yn ôl-weithredol am fisoedd lawer.
- Rydym yn gweithio ar y cyd â swyddogion iaith eraill yn ardal Dde-ddwyrain Cymru. Ar gyfer y cais Rhyddid Gwybodaeth dros Gymru gyfan ddiweddar mewn perthynas â chysiau addysg a gwersi nofio - mae un awdurdod yn darparu 30-40 o wersi nofio'r wythnos yn Gymraeg, ond wedi methu dwy o'r dair Safon. Mae awdurdod arall, fodd bynnag, ddim yn darparu unrhyw wersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ddim ond wedi methu un Safon. Mae hyn yn ymddangos yn anghyson ac yn achosi rhywfaint o anhawster ymhlith y grŵp o swyddogion iaith.
- Cwyn gan aelod o'r cyhoedd nad ydynt yn hapus gyda'r cyfieithiad Cymraeg o'r gair *Dan Do - Indoor* ar arwydd yn un o'n canolfannau hamdden, gwnaeth hyn gychwyn ymchwiliad nad oedd y Comisiynydd wedi'i gynnal. Er iddo gael ei dderbyn yng Ngeiriadur yr Academi nid oeddem yn gallu atal yr ymchwiliad rhag mynd yn ei flaen drwy ddarparu esboniad cynnar i'r achwynydd.
- Ymchwiliad arall oedd oherwydd camgymeriad teipio gyda'r gair a ddefnyddiwyd *Rhenti* yn lle *Rhentu*. Cafodd gwall teipograffyddol ei wneud oherwydd gwall dynol. Ni fyddai unrhyw system gwirio sillafu wedi dangos hyn i fod yn anghywir yn y cyd-destun gan ei fod yn sillafiad cywir ond gydag ystyr gwahanol - gwnaeth ymchwiliad gan y Comisiynydd, a gymerodd 7 mis i'w gwblhau, ddarganfod ein bod ni wedi torri'r Safonau oherwydd ein bod wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, y penderfyniad oedd ni fyddai unrhyw gamau

pellach yn cael eu cymryd. Ni fyddai gwall sillafu tebyg yn y Saesneg wedi denu'r lefel hyn o anhawster, nac wedi defnyddio'r un lefel o adnoddau cyhoeddus.

- Rydym yn ymwybodol o sefyllfa gyda mesuryddion parcio mewn awdurdod cyfagos lle mae'r Comisiynydd wedi derbyn y drefn bresennol, ond doedd yr achwynydd ddim. Cyflwynodd yr achwynydd gais i'r Tribiwnlys a newidodd y Comisiynydd ei meddwl cyn y gwrandawriad. Mae hyn yn achosi pryderon ynghylch anghysondeb a'r ffaith bod y Tribiwnlys yno i gael ei ddefnyddio i ddyfarnu ar wahaniaethau barn.
- Ymchwiliad arall yn gysylltiedig ag achos Gwasanaethau Cymdeithasol lle mae rhiant yn cwyno am y diffyg dewis iaith, ni allai Gwasanaethau Cymdeithasol ddatgelu'r wybodaeth i'r Comisiynydd oherwydd cyfyngiadau diogelu data. Cafodd yr ymchwiliad ei chau hanner ffordd drwy'r broses heb unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud naill ffordd. Mae hyn yn anfon neges sy'n gwrthdaro.

Safonau

- Mae'r term Safon yn golygu bod safon, fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol wedi herio geiriad / dehongliad rhai Safonau ac wedi cael eithriadau. Mae'n ymddangos bod y Safonau yn cael eu gweithredu yn anghyson ar draws Cymru oherwydd yr eithriadau hyn rhwng sefydliadau.